**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR LLYWODRAETHIANT AC ARCHWILIO**

**SUBJECT:** **PWYLLGOR LLYWODRAETHIANT AC ARCHWILIO - DYDD MERCHER, 20 MEDI 2023 DYDD MERCHER, 20 MEDI 2023**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: J. ABSALOM (CADEIRYDD)

Councillors S. Behr (Is-gadeirydd)
D. Bevan
K. Chaplin
W. Hodgins
C. Smith
J. Wilkins
M. Veale

WITH: Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim Gwasanaethau Cymdeithas
Prif Swyddog Adnoddau
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Llywodraethiant Phartneriaethau
Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol
Rheolwr Archwilio a Risg
Arweinydd Proffesiynol – Archwilio Mewnol
Rheolwr Tîm – Datrysiadau Tai a Chydymffurfiaeth
Rheolwr Gwasanaeth – Masnachol a Chyfleoedd Busnes
Rheolwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Plant
Swyddog Diogelu Data a Llywodraethiant
Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata
Arweinydd Tîm – Gwasanaeth Arlwyo Prydau Ysgol
Arweinydd Proffesiynol – Risg ac Yswiriant
Uwch Archwilydd

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **<u>CYFIEITHU AR Y PRYD</u>**<br><br>Nodwyd na chafwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| No. 2 | **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:<br>Prif Swyddog – Masnachol a Chwsmeriaid<br>Mike Jones, Richard Harries, Alice King a Deborah Woods, Archwilio Cymru. | |
| No. 3 | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| No. 4 | **<u>PWYLLGOR LLYWODRAETHIANT AC ARCHWILIO</u>**<br><br>Cyflwynwyd penderfyniadau'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2023.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn y penderfyniadau fel cofnod gywir o'r trafodion. | |
| No. 5 | **<u>DALEN WEITHREDU</u>**<br><br>Cyflwynwyd y Ddalen Weithredu yn deillio o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2023. Ar hynny:<br><br>**<u>Eitem Rhif 7 – Blaenraglen Gwaith 2023/24 – Hyfforddiant Gloywi ar Rôl a Chylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio</u>**<br><br>Nodwyd y cynhelir yr hyfforddiant uchod ddydd Mawrth 10 Hydref 2023 am 9.30am ar MS Teams, felly mae'r cam gweithredu hwn yn awr wedi ei gwblhau.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol, yn amodol ar yr uchod, i nodi'r Ddalen Weithredu. | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 6** | **BLAENRAGLEN GWAITH 2023-24**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Blaenraglen Gwaith arfaethedig 2023/2024.<br><br>Rhoddwyd y diweddariad dilynol:<br><br>- Caiff Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio ei ystyried gan y Pwyllgor yng nghyfarfod mis Tachwedd. Fodd bynnag, mewn blynyddoedd dilynol caiff yr eitem hon ei chynnwys ar y flaenraglen gwaith ar gyfer mis Medi.<br><br>- Datganiad Cyfrifon 2021/2022 – yn amodol ar i Archwilio Cymru gwblhau ISA 260, rhagwelir y caiff yr adroddiad hwn ei gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor ym mis Hydref ar gyfer ei ystyried.<br><br>Yn dilyn pryderon a wnaed gan Aelodau am yr oedi wrth dderbyn Datganiad Cyfrifon 2021/2022 wedi ei gwblhau, dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau fod cynrychiolydd o Archwilio Cymru wedi cynnig cwrdd ag Aelodau'r Pwyllgor i roi esboniad o ran y problemau a geir ar hyn o bryd.<br><br>PENDERFYNWYD yn unol â hynny.<br><br>PENDERFYNWYD YMHELLACH, yn unfrydol ac yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef derbyn y Flaenraglen Gwaith. | |
| **No. 7** | **SIARTER ARCHWILIO MEWNOL**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Archwilio a Risg<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol yn unol ag arfer da a gofynion PSIAS. | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 8** | **<u>CYNNYDD ARCHWILIAD MEWNOL 2023/24</u>**<br><br>Ystyriodd adroddiad yr Arweinydd Proffesiynol Archwilio Mewnol. Ar hynny:<br><br>**<u>Adroddiad Archwilio Mewnol – Llety Dros Dro 2022/2023</u>**<br><br>Oherwydd yr effaith ariannol bosibl ar yr awdurdod lleol a'r diffyg llety tai cymdeithasol yn yr ardal, caiff mater digartrefedd ei drafod yn adrannol i ganfod os dylid cynnwys y mater hwn o fewn y gofrestr risg corfforaethol.<br><br>Os yn briodol, yn dilyn yr asesiad risg ac unrhyw fesurau lliniaru posibl, byddir yn rhoi diweddariadau i'r Pwyllgor.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a nodi'r cynnydd ar weithgareddau am y cyfnod 1 Ebrill i 30 Mehefin. | |
| **No. 9** | **<u>COFRESTR RISG GORFFORAETHOL CH1 2023 / 2024</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Nodwyd y byddai Aelodau yn cael cyfle pellach i roi sylwadau ar fformat y gofrestr risg, y broses rheoli risg a'r wybodaeth a gyflwynwyd yng nghyswllt rôl sicrwydd y Cyngor yn y sesiwn hyfforddiant gloywi ar 10 Hydref 2023.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad ac yn dilyn ystyriaeth o'r wybodaeth, rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor fod gan y Cyngor drefniadau priodol yn eu lle i reoli risg. | |